

## **Cyngor Sir Ddinbych**

### **Gwasanaeth Datrysiadau Tai**

#### **Cynigion ar gyfer Protocol Argyfwng Tywydd Garw 2016/17**

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r mesurau y bydd Cyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid yn eu rhoi ar waith er mwyn lliniaru effeithiau tywydd oer difrifol ar rai sy'n cysgu allan. Bydd y cynllun ar gyfer y cyfnod o dywydd oer yn ategu'r gwaith parhaus sy'n anelu at weithio'n systematig i ddarparu ar gyfer pobl drwy nodi'r rhai sydd mewn perygl yn gynnar a lle bo modd osgoi ymatebion argyfwng sy'n gwaethygu'r galw.

#### **Grŵp o gleientiaid – i bwy mae'r Protocol yn berthnasol iddynt?**

Prif nod y Protocol yw atal bywydau rhag cael eu colli a'r dioddefaint sydd ynghlwm wrth fyw mewn tymheredd o dan y rhewbwynt i bobl sy'n ddigartref ar y stryd.

Y nod eilaidd yw galluogi sefydliadau partner i wneud y defnydd gorau o'r cyfle i ymgysylltu â rhai sy'n cysgu allan yn y tymor hir, sydd fel arfer yn gwrthwynebu dod dan do.

Dylai'r Protocol gynorthwyo gydag unrhyw un sy'n cysgu allan ar y strydoedd yn yr oerfel eithafol. Mae hyn yn cynnwys y rhai na allant droi at gyllid cyhoeddus fel dinasyddion A10 o wladwriaethau sydd wedi'u derbyn i'r UE.

At ddibenion y polisi hwn, ystyr rhywun sy'n cysgu allan fydd, unigolyn sydd wedi cael ei nodi fel un sy'n cysgu allan (wedi creu gwely, neu yn mynd i greu gwely) gan naill ai'r Tîm Allgymorth, Heddlu Gogledd Cymru neu'r Timau Datrysiadau Tai

#### **Tywydd Oer - beth yw tywydd eithriadol o oer?**

Y trothwy sy'n nodi darpariaeth tywydd oer difrifol yw rhagolygon y tywydd sy'n rhagweld tair noson yn olynol, neu fwy, gyda thymheredd isaf ar y rhewbwynt neu'n is. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer pobl sy'n cysgu allan pan fydd rhagolygon y tywydd yn rhagweld tymheredd isaf ar y rhewbwynt neu'n is heb ystyried y rheol tair noson. Bydd y rhagolygon tymheredd yn cael eu cymryd o'r data tymheredd a ddarperir yn ddyddiol gan y Swyddfa Dywydd. Bydd y data'n cael ei fonitro gan y Tîm Allgymorth a fydd hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am hysbysu'r Timau Datrysiadau Tai / Swyddog ar Ddyletswydd mewn Argyfwng y tu allan i Oriau swyddfa, a Tŷ Golau ynghylch pa bryd y mae cyfnod o dywydd eithriadol o oer mewn grym.

Mae disgwyl y bydd y cynllun tywydd oer yn cwmpasu misoedd Tachwedd 2016 i fis Mawrth 2017 gan gynnwys y misoedd hynny.

Bydd y Prosiect Allgymorth, Datrysiadau Tai a chydweithwyr perthnasol yn Heddlu Gogledd Cymru, yn gweithio ar y stryd i nodi unigolion a all wedyn gael eu blaenoriaethu ar gyfer llety. Pan fydd y Swyddfa Dywydd yn dangos y bydd yna dair noson yn olynol o dywydd garw bydd y Prosiect Allgymorth yn ymweld â mannau a nodwyd fel lleoedd lle mae pobl yn cysgu allan i gysylltu ag unrhyw un sy'n dal i fod

ar y strydoedd. Bydd Timau Datrysiadau Tai yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau i sicrhau llety ar gyfer unrhyw bobl a allai fod yn cysgu allan.

Cyn belled ag y bo modd, bydd llety'n cael ei nodi yn y diwrnod gwaith. Bydd hyn o fewn deddfwriaeth tai perthnasol arferol a defnyddio'r lleoedd gwag safonol sydd ar gael. Bydd pobl sy'n cysgu allan yn cael eu cyngori i fynd i Tŷ Golau - os nad oes gwllâu ar gael, bydd Tŷ Golau yn cysylltu â Datrysiadau Tai y Tu Allan i Oriau Swyddfa.

### **Mynediad i wllâu brys**

Mae 7 o leoedd brys yn Sir Ddinbych, Prosiect Tŷ Golau. Gellir dyrannu gwllâu brys ymlaen llaw nad ydynt yn cael eu defnyddio i bobl sy'n cysgu allan pan fydd y Protocol yn ei le, bydd hyn yn wir waeth beth yw Cysylltiad Lleol a / neu hawl i arian cyhoeddus ond yn amodol ar Asesiad Risg. Yr amodau mynediad fydd

- Os yw Protocol yn nodi unrhyw un yn ystod y dydd, gellir eu henwebu ar gyfer gofod gwely - yn amodol ar argaeledd ac Asesiad Risg pan eu bod yn cyflwyno eu hunain.
- Rhaid i'r cleient aros yn y llety dros nos hyd nes amser y cytunwyd arno, a rhaid iddynt gytuno i gysylltu â'r Tîm Datrysiadau Tai'r diwrnod canlynol ar gyfer cyfweiliad ac asesiad er mwyn cyfeirio at wasanaethau priodol gan gynnwys llety. Bydd rhan o'r broses hon yn cynnwys gweithredu Polisi Ailgysylltu Tŷ Golau.
- Dim trais, cam-drin na bygwth unrhyw barti arall o fewn yr adeilad.
- Unrhyw gais rhesymol a wneir i'r darparwr gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rheoli unrhyw risgiau a berir (er enghraifft cais i beidio â chamdefnyddio alcohol ar yr eiddo)

Mae'n hanfodol gwneud y defnydd gorau o'r **holl** llety sydd ar gael. Mae'n bwysig bod pob asiantaeth yn cydweithio i annog cleientiaid i gael mynediad at llety sydd ar gael.

Os bydd sefyllfa'n codi lle nad oes unrhyw llety argyfwng o gwbl ar gael, bydd llety gwely a brecwast yn cael ei sicrhau. Fodd bynnag, nid yw hwn yn opsiwn a ffafrir nac yn ateb cadarnhaol a dylid ei osgoi ar bob cyfrif drwy sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r ddarpariaeth bresennol.

Os cadwyd at yr amodau uchod ac nad yw'r unigolyn wedi gallu sicrhau llety addas, ac yn debygol o barhau i gysgu allan tra bod y Protocol yn ei le, yna gellir caniatáu'r unigolyn i dreulio mwy nac un noson yn y gwely dan y Protocol. Mae hyn yn dileu'r angen am ailadrodd Asesiadau Risg, ond mae ond yn cael ei ganiatáu pan fo'r Protocol yn parhau i fod ar waith, mae pob dewis wedi eu defnyddio, a bod y llety'n debygol o gael ei sicrhau yn y tymor byr.

### **Asesiadau Risg**

Mae'n rhaid cwblhau asesiad risg ar gyfer holl gleientiaid y Protocol ar y pwynt cyswllt â'r Tîm Allgymorth neu Datrysiadau Tai, yr Asesiad Risg sydd ynghlwm (Atodiad 1) yw'r Asesiad Risg lleiaf y gellir ei ddisgwyl, fodd bynnag, lle mae gwasanaethau eraill wedi cwblhau'n llawn ar eu Risg eu hunain, bydd hyn yn cael ei

dderbyn yn lle hynny. Os dylid cael mynediad at wybodaeth ymarferol a gedwir gan y Tîm Datrysiadau Tai neu'r cydlynnydd Gateway a'i ddefnyddio i helpu i gwblhau'r ddogfen. Dylai gwasanaethau sy'n derbyn Cleientiaid dan y Protocol hefyd ddefnyddio eu gwybodaeth am unigolyn wrth wneud penderfyniad terfynol yn seiliedig ar asesiad risg cyn rhoi llety neu beidio rhoi llety os bydd Swyddog yr Heddlu yn gwneud atgyfeiriad dan y Protocol bydd gwiriad PNC yn cael ei wneud pan fo angen.

### **Lleihau gwaharddiadau o lety â chymorth yn ystod y cyfnod o dywydd oer**

Cydnabyddir bod angen i ddarparwyr tai â chymorth sicrhau iechyd a diogelwch y preswylwyr a staff eraill bob amser, fodd bynnag, yn ystod y cyfnod o dywydd oer, mae'n bwysig bod darparwyr tai a chymorth yn osgoi troi allan o ddarpariaethau a gwaharddiadau rhag cael mynediad i brosiectau am faterion nad ydynt yn ddifrifol (ôl-ddyledion rhent neu dorri rheolau ar lefel isel).

Dylai pob gwasanaeth Cefnogi Pobl weithio'n gadarnhaol i annog defnyddwyr y gwasanaeth i ymgysylltu â chymorth a rhoi eu bywydau ar y trywydd cywir, ac mae'n hanfodol bod y gwaith da hwn yn parhau dros y cyfnod o dywydd oer. Dylid gwneud pob ymdrech gyda defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn perygl o golli eu llety er mwyn eu hatal rhag bod yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwn. Dylai darparwyr Cefnogi Pobl weithio'n rhagweithiol gyda'r Timau Llwybr Sengl a Datrysiadau Tai er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi troi allan o lety â chymorth lle bo modd. Dylid cyfeirio unrhyw un sydd mewn perygl at y tîm Llwybr Unigol i'w drafod mewn cyfarfod achos cymhleth er mwyn ystyried dewisiadau eraill yn hytrach na throi allan. Bydd swyddogion a rhanddeiliaid cysylltiedig yn parhau i adolygu pob achos o droi allan, a dewisiadau ar gyfer pawb sy'n wynebu cael eu troi allan. Bydd yn hanfodol i **atal** pobl rhag mynd yn ddigartref rhag llety argyfwng neu lety â chymorth.

Lle nad yw wedi bod yn bosibl osgoi troi unigolyn allan dylai pob darparwyr llety barhau i roi gwybod i'r Timau Datrysiadau Tai a Llwybr Sengl i roi gwybod am achosion unigol o bobl sydd wedi cael eu troi allan.

### **Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu symud ymlaen mewn modd amserol i greu capasiti mewn llety dros dro**

Yn ystod y cyfnod o dywydd oer, mae'n hanfodol bod capasiti yn cael ei greu o fewn y sector tai â chymorth a bod yna ffocws ar symud defnyddwyr gwasanaeth sy'n barod am annibyniaeth yn eu blaen o'r ddarpariaeth mewn modd a gynlluniwyd. Dylai darparwyr llety â chymorth ganolbwyntio cynllunio cymorth mewn ffordd hyd yn oed yn fwy dwys, ar symud ymlaen, (lle bo'n briodol) yn ystod y cyfnod hwn, gan sicrhau bod y cynlluniau ailsefydlu yn effeithiol ac yn amserol.

Dylid cyfeirio hefyd at y Tîm Datrysiadau Tai i ystyried opsiynau tai eraill fel mynediad i'r sector rhentu preifat drwy Swyddog Sector Rhentu Preifat a Chynllun Bondiau Rhent NACRO.

### **Sut y gall pobl eraill helpu**

Mae'n bwysig bod pryderon ynghylch pobl sy'n cysgu allan yn cael eu trosglwyddo i'r Prosiect Allgymorth cyn gynted ag y bo modd drwy rif Llinell Frys Streetlink Cymru.

Pan fydd y wybodaeth yn cael ei derbyn, gwneir pob ymdrech i gysylltu â'r unigolyn/ unigolion er mwyn cynnig cefnogaeth ac i gael eu hystyried ar gyfer llety addas. Bydd y prosiect Allgymorth yn sicrhau bod pob Cyfranogwyr dan y Protocol yn ymwybodol o wybodaeth ar Gysgu Allan yn ystod cyfnod y Protocol gan y gallai'r unigolion hyn gyflwyno'u hunain fel cleientiaid o dan y Protocol.

### Gweithdrefn

Bwriad y weithdrefn hon yw bod fel canllaw ar gyfer darparwyr llety ac asiantaethau cyfeirio pan fydd y Protocol yn cael ei weithredu, fel yr amlinellir yn y protocol.

- Mae'r holl ddarparwyr ac asiantaethau'n gyfrifol am fonitro'r tywydd a pharatoi eu gwasanaethau yn unol â hynny.
- Bydd y prosiect Allgymorth yn arwain ar fonitro'r tywydd ar gyfer pobl sy'n cysgu allan fel y darperir gan wasanaeth tywydd y BBC yn ddyddiol, i nodi pryd y dylid gweithredu'r Protocol. Gweithredu'r broses o 12 hanner dydd os oes angen.
- Bydd y prosiect Allgymorth yn anfon e-bost at Tŷ Golau a Datrysiadau Tai i roi gwybod iddynt bod y Protocol yn cael ei weithredu a chadarnhau argaeledd gwllâu. Yna, bydd y Protocol yn parhau mewn grym hyd nes y bydd e-bost pellach yn cael ei anfon i ddweud ei fod wedi dod i ben.
- Ar ôl nodi bod angen llety ar y person sy'n cysgu allan y diwrnod hwnnw, drwy'r **Tîm Datrysiadau Tai**, neu ar ôl cael ei ddarganfod gan y **Prosiect Allgymorth / yr Heddlu**, bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau (a/neu wiriad PNC) bydd argaeledd gwllâu yn cael eu gwirio yn Nhŷ Golau. Rhaid i gyfathrebu rhwng Tŷ Golau a'r Swyddog Datrysiadau Tai sydd ar ddyletswydd ddigwydd i sicrhau bod gennym fanylion cywir o ran argaeledd gwllâu ar ôl 5pm.
- Sylwch, os nad yw'r cyswllt a enwebwyd ar gael, gwnewch yn siŵr bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud (hy Anfon negeseuon e-bost ymlaen yn awtomatig a rhifau cyswllt amgen)
- Os nodir fod rhywun yn cysgu allan y tu allan i oriau swyddfa, bydd swyddog ar ddyletswydd yn y Tîm Datrysiadau Tai yn ffonio Tŷ Golau i weld a oes gwllâu ar gael cyn gwneud ymholiadau eraill.
- Bydd darparwr y llety yn cadarnhau unwaith eto a oes gwllâu argyfwng ar gael ac a ydynt yn barod i dderbyn y cleient, yn seiliedig ar yr asesiad risg cychwynnol. Os gwrthodir y gwely, mae'n rhaid i'r darparwr llety rhoi rhesymau yn ysgrifenedig, neu drwy e-bost, at y cyfeiriwr.
- Gellir ystyried defnyddio tacsis – mae gan Tŷ Golau drefniant gyda chwmni tacsis a bydd yn trefnu tacsis, os oes angen, a bydd yn codi tâl ar yr Awdurdod Lleol am deithiau a awdurdodir gan y Tîm Datrysiadau Tai neu'r Prosiect Allgymorth o ganlyniad i'r Protocol.

- Dylai'r cleient ddisgwyl cael y gwasanaeth isafswm gan y darparwr llety fel yr amlinellir yn y dogfennau safonau gwasanaeth unigol (ynghlwm).
- Dylai darparwr llety lenwi ffurflen gwybodaeth sylfaenol (atodiad 2) at ddibenion monitro, a'i anfon drwy e-bost at y Tîm Datrysiadau Tai a'r Tîm Allgymorth. ([housing.solutions.team@denbighshire.gov.uk](mailto:housing.solutions.team@denbighshire.gov.uk) & [emma.tudor@denbighshire.gov.uk](mailto:emma.tudor@denbighshire.gov.uk))
- Bydd y Timau Datrysiadau Tai yn rhoi adborth i Tŷ Golau / Allgymorth o ganlyniad y cyfweiliad Opsiynau.
- Dim ond os oes gwely argyfwng ar gael, yna cysylltir â'r Tîm Datrysiadau Tai ac efallai y cynigir defnyddio llety gwely a brecwast fel dewis olaf.
- Pan weithredir y Protocol, bydd Tŷ Golau'n agor o 6.30pm.

## **PENWYTHNOS A GWYLIAU BANC**

- Staff **Allgymorth** i wirio'r tymheredd a gweithredu'r broses
- Dilyn y broses uchod
- Cysylltu â'r gwasanaeth tu allan i oriau swyddfa (rhif isod)
- Darparwr llety i gadw'r cleientiaid yn y llety tan y diwrnod gwaith nesaf.

## **RHIFAU DEFNYDDIOL**

- Tai Sir Ddinbych - 01824 708367 neu 03001 233068 (tu allan i oriau swyddfa)
- Darpariaeth Argyfwng Tŷ Golau – 01745 345900
- Shelter Cymru - 0345 075 5005
- Street Link 0300 5000914

### **Tŷ Golau**

**Rhif Ffôn:** 01745 360868 / 345900

**Lleoliad:** Tŷ Golau, Canolfan Dewi Sant, Stryd Clwyd, Y Rhyl LL18 3LA

**Nifer y gwlâu argyfwng:** 7

**Staff sy'n Effro Drwy'r Nos:** oes

**Staff sy'n Cysgu Drwy'r Nos:** oes

**Cymorth a Chyfleusterau a Gynigir:** Cyngor a chymorth, te, tost

**Oriau agor:** Tŷ Golau 6:30pm (Pan weithredir y Protocol) - 8:00am

**Gwasanaeth Dydd Cymunedau ARC**

Dydd Llun - Dydd Gwener 10am – 2.30pm

Dydd Llun, Mercher, Gwener – ailagor 3pm - 4.45pm

Dydd Iau – ailagor 3pm – 5pm

**Souper Sunday** 1pm – 3pm (ni fydd y polisi Cysylltiad Lleol yn berthnasol os gweithredir y Protocol)

Atodiad 1 – Aseiad Risg

## Tŷ Golau Mynediad / Anghenion ac Aseiad Risg (I'w ddefnyddio bob nos)

Dyddiad .....

Enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth: .....

Dyddiad Geni .....

Sut ddaethoch chi i fod yn ddigartref?

.....  
.....  
.....

A oes gennych chi denantiaeth yn rhywle arall?

.....  
.....  
.....

A ydych newydd symud i Ardal Sir Ddinbych?

YDW [ ] NAC YDW [ ]

Os felly, o ble ydych chi'n dod?

.....

Sut wnaethoch chi glywed am y gwasanaeth yn y Rhyl

.....

**(A oes cysylltiad lleol, esbonio i'r defnyddiwr ynghylch y flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i ddefnyddwyr gwasanaeth lleol)**

A hoffech chi gael cymorth i ddechre i'ch ardal leol **(Os hoffech chi, dilynwch hyn yn y cynllun cymorth a chysylltu ag asiantaethau lleol heno os yw'n bosibl, os nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth yn dymuno ail-gysylltu, dylid rhoi mynediad iddynt fesul noson am hyd at 72 awr i gwblhau'r aseiad Cefnogi Pobl.**

.....

**Os yw'r defnyddiwr gwasanaeth o dan fygythiad o drais, dylai staff gasglu gwybodaeth a gwneud gwaith dilynol i wirio.**

.....  
.....

Pa mor hir ydych chi eisiau archebu i aros; 1, 2 neu 3 noson?

**(os 3 noson, esboniwch i'r person bod angen dychwelyd ar yr ail a'r drydedd noson erbyn 7pm neu bydd eu gwely yn cael ei roi i ddefnyddiwr gwasanaeth arall.**

**Os nad oes gan Ddefnyddiwr y Gwasanaeth unrhyw gysylltiad lleol ond yn dymuno cael ei hailgysylltu gallant archebu lle am 1-3 noson tra'n gweithio tuag at hynny**

A oes gennych unrhyw broblemau iechyd uniongyrchol? OES [ ] NAC OES [ ]

A oes gennych ddeintydd? OES [ ] NAC OES [ ]

A oes gennych ddoctor? OES [ ] NAC OES [ ]

A ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn? OES [ ] NAC OES [ ]

Os ydych, beth yw'r feddyginiaeth, pam a pha mor aml rydych chi'n ei chymryd?

.....

Ydych chi wedi cymryd eich meddyginiaeth heddiw? YDW [ ] NAC YDW [ ]

A oes gennych unrhyw Faterion Iechyd Meddwl neu Hunan-niwed y mae angen inni fod yn ymwybodol ohono

.....

.....

A ydych yn cario unrhyw eitemau miniog neu bethau yn ymwneud â chyffuriau?  
YDW [ ] NAC YDW [ ]

Ydych chi erioed wedi derbyn rhybudd neu eich dedfrydu am losgi bwriadol?  
YDW [ ] NAC YDW [ ]

Ydych chi erioed wedi cael rhybudd neu eich dyfarnu'n euog o drosedd ryw?  
YDW [ ] NAC YDW [ ]

Ydych chi erioed wedi cael rhybudd neu eich dyfarnu'n euog o drosedd dreisgar?  
YDW [ ] NAC YDW [ ]

**Os mai ydw / oes yw eich ateb i unrhyw un o'r uchod llenwch y ffurflen rheoli risg ar wahân**

.....

.....

A ydych yn cael mynediad i asiantaethau eraill yn lleol .....



Ydych chi'n ymwybodol o ddarpariaethau eraill ar gyfer pobl sy'n cysgu allan yn yr ardal yn ystod y dydd?

YDW [ ] NAC YDW [ ]

Ydych chi'n derbyn unrhyw fudd-daliadau/incwm?

YDW [ ] NAC YDW [ ]

.....  
.....

Llofnod.....

### **DEFNYDD STAFF YN UNIG**

**Ydych chi wedi dioddef unrhyw ymosodiad yn y pythefnos diwethaf Ydw [ ]  
NAC ydw [ ]**

**Os ydych, a allwch chi egluro i'r staff sut y mae hyn wedi digwydd? Bydd Cyfrinachedd yn cael ei ddefnyddio os yw Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am hyn.**

.....  
.....  
.....  
.....

A oes gan yr unigolyn unrhyw farciau gweladwy ar eu corff? OES [ ] NAC OES [ ]

Os oes, sut wnaethon nhw gael y marciau hyn a pha fath o farciau?

.....  
.....

A yw'r person yn ymddangos yn gynhyrfus neu'n bryderus? YDI [ ] NAC YDI [ ]

A yw'r person yn ymosodol neu'n sarhaus yn eiriol? YDI [ ] NAC YDI [ ]

A yw'r person yn cyfleu risg? YDI [ ] NAC YDI [ ]

Ydych chi wedi llenwi ffurflen rheoli risg YDW [ ] NAC YDW [ ]

A ellir ymdopi â'r risgiau a nodwyd? GELLIR [ ] NA ELLIR [ ]

A yw'r person yn gallu gadael yr adeilad os oes tân ac ati? YDI [ ] NAC YDI [ ]

A yw'r person yn deall yr Amodau Deiliadaeth? YDI [ ] NAC YDI [ ]

A oes mynediad yn cael ei roi i'r Shelter?

OES [ ] NAC OES [ ]

Os gwrthodir mynediad, rhowch rheswm/ rhesymau .....

.....

.....

.....

ydych chi wedi llenwi gwaith papur gwrthod

.....

Llofnod staff .....

Atodiad 2 – Ffurflen Gwybodaeth Sylfaenol

Enw	
Dyddiad Geni	
ID (cymerwch gopi o'r ID)	
Oes gennych chi gysylltiad lleol?	
A oes gennych unrhyw alcohol sydd angen i chi wrth law i staff	
A oes unrhyw beth arall rydych chi'n teimlo y gallai fod angen ei roi i staff i'w gadw'n ddiogel	
A ydych yn cario unrhyw arfau / offer miniog Os mai'r ateb yw ydw, ni ddylid rhoi mynediad i'r person gyda'r rhain	
Am Sawl noson ydych chi am archebu lle yno os yw'n noson gyntaf 1,2,3	